**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PWYLLGOR ARCHWILIO**

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf 2017 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 2pm.

YN BRESENNOL

| | |
|---|---|
| Cynghorwyr: | |
| J R Skelland (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| B Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| S Glyn | Cyngor Gwynedd |
| I D Lloyd | Cyngor Gwynedd |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| D Rees | Cyngor Sir Ynys Môn |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| N Smith | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| D Wisinger | Cyngor Sir y Fflint |

HEFYD YN BRESENNOL:

D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); K Finch (Trysorydd): G Owens (Dirprwy Glerc); S Forrest (Pennaeth Gwasanaethau Cyfrifyddu a'r Trysorlys, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); K V Williams (Adran Archwilio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); M Jones ac A Bruce (Swyddfa Archwilio Cymru); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

YMDDIHEURIADAU:

| | |
|---|---|
| Y Cyng. A Daniels | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng. S Lloyd-Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Dim.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 30 IONAWR 2017

2.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2017 eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

2.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod cywir.**

3 MATERION YN CODI

3.1 ***7.5 Diffyg y Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol*** – cadarnhawyd bod lwmp-swm y diffyg wedi cael ei dalu yn Ebrill 2017, gan arwain at hyd at £138,600 o arbedion dros y tair blynedd ariannol nesaf.

4 CYNLLUN ARCHWILIO

4.1 Cyflwynodd Mark Jones ac Andy Bruce o Swyddfa Archwilio Cymru gynllun archwilio'r Swyddfa i'r Awdurdod ar gyfer 2017-18.

4.2 Roedd y cynllun yn nodi'r gwaith i'w wneud, gan gynnwys archwiliad o'r adroddiad datganiadau ariannol a'r gwaith perfformiad. Esboniodd Mr Jones y bydd y gwaith archwilio ariannol yn cynnwys adolygu'r modd y mae eiddo, peiriannau a chyfarpar yn cael eu cyfrifyddu a'u datgelu, a hefyd yn cynnwys adolygu'r cynlluniau pensiwn i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r gofynion cyfrifyddu perthnasol.

4.3 Esboniodd Mr Bruce y bydd y gwaith archwilio perfformiad yn cynnwys edrych ar yr adroddiad gwella blynyddol a gwaith treialu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Yn ogystal â'i raglen flynyddol o waith archwilio ac asesu, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal rhaglen o astudiaethau llywodraeth leol a phrosiectau lleol; eleni, bydd yn edrych ar y modd y mae fflyd GTAGC yn rheoli cerbydau anweithredol. Bydd rhagor o wybodaeth am waith treialu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei darparu i'r aelodau mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

4.4 £62,227 yw amcangyfrif y ffi am y gwaith archwilio ariannol a pherfformiad, gan gynnwys gwaith sylwadau blwyddyn un ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Nodwyd mai 28 Gorffennaf yw dyddiad cau'r ymgynghoriad ar ffioedd Swyddfa Archwilio Cymru, ac mae croeso i bawb roi adborth.

4.5 **PENDERFYNWYD nodi'r cynllun archwilio ar gyfer 2017/18.**

5 DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

5.1 Cyflwynodd y DBST y Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'r aelodau er mwyn cael eu sylwadau, a hynny cyn ei gyflwyno gyda'r set lawn o gyfrifon ym mis Medi 2017. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn ffordd o adrodd yn gyhoeddus i ba raddau y mae Awdurdod yn cydymffurfio â'i God Llywodraethu Corfforaethol ei hun.

5.2 Aeth y DBST â'r aelodau drwy'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r cynllun gweithredu. Gwnaethpwyd argymhellion ar gyfer gwella yn 2015/16, a chafodd yr aelodau wybod am y cynnydd a wnaed yn ystod 2016/17 o dan bob argymhelliad. Cynlluniwyd camau newydd ar gyfer 2017/18, ac maent yn cynnwys datblygu gwybodaeth aelodau newydd ar ôl etholiad yr awdurdodau lleol ac ehangu'r gwaith adolygu prosiectau ar ôl eu rhoi ar waith.

5.3 I ymateb i gwestiwn gan un o'r aelodau, cadarnhawyd bod bwrdd cydweithredu'r tri gwasanaeth brys wedi cael ei sefydlu er mwyn helaethu'r gwaith ar y cyd rhwng y gwasanaethau goleuadau glas yng Ngogledd Cymru. Diolchodd yr Aelodau i'r swyddogion am yr adroddiad, ac roeddent yn falch o nodi'r cynnydd a wnaed yn y cynllun gweithredu.

5.4 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cynnwys Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2016/17.**

6 DANGOSYDDION DARBODUS, STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS, Y STRATEGAETH FUDDSODDI A'R POLISI DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW

6.1 Mae adroddiad blynyddol y trysorlys yn un o ofynion gweithdrefnau adrodd yr Awdurdod. Mae'n nodi gweithgarwch y trysorlys a dangosyddion darbodus gwirioneddol 2016/17 yn unol â gofynion y Cod Darbodus.
Tasg y Pwyllgor Archwilio oedd sicrhau bod craffu effeithiol yn digwydd ar strategaeth a pholisïau rheoli'r trysorlys, a gwneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub yn seiliedig ar eu canfyddiadau.

6.2 Rhoddodd Sandra Forrest gyflwyniad manwl ar y strategaeth rheoli'r trysorlys a'r economi, gweithgareddau benthyca, gweithgareddau buddsoddi a dangosyddion darbodus. Nodwyd bod yr Awdurdod wedi cydymffurfio â'r holl ofynion statudol a rheoleiddio sy'n cyfyngu ar lefel y risg sy'n gysylltiedig â'i weithgareddau rheoli'r trysorlys. Ar gyfer y buddsoddiadau, y drefn flaenoriaeth oedd diogeledd yn gyntaf, yna hylifedd, yna arenillion. Mae'r gwariant cyfalaf a ddaeth i ran yr Awdurdod yn ddarbodus, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy fel y dangosir gan y dangosyddion perfformiad a gynhyrchwyd ynghyd â'r costau ariannu cyfalaf.

6.3 Rhestrodd Ms Forrest y risgiau ar gyfer 2017/18, gan esbonio bod y camau canlynol yn cael eu cymryd er mwyn lliniaru unrhyw risg gymaint ag y bo modd:

- mae ymgynghorwyr rheoli'r trysorlys (Arlingclose) yn monitro partïon i gontract yn ddyddiol o ran eu teilyngdod credyd a pha mor debygol yw bod y sefydliad yn methu
- mae cronfeydd dros ben yn cael eu cadw mor isel â phosibl, ac mae'r rhan fwyaf yn cael eu cadw mewn cyfrifon galw er mwyn llif arian
- cadw £100k mewn cronfa i ymorol am unrhyw gynnydd mewn cyfraddau llog (1% ar £10 miliwn).

6.4 **PENDERFYNWYD argymell bod yr Awdurdod yn cymeradwyo dangosyddion darbodus gwirioneddol 2016/17.**

7 DATGANIAD SICRWYDD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL

7.1 Rhoddodd Keith Williams o Archwilio Mewnol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, gyflwyniad fel rhan o'r gofyniad blynyddol ar yr Awdurdod i gynnal adolygiad o ba mor effeithiol yw ei system rheolaeth fewnol.

7.2 Cadarnhawyd bod Pennaeth Archwilio Mewnol o'r farn fod gan yr Awdurdod broses reoli ddigonol ac effeithiol i reoli'r modd y bu'n cyflawni amcanion yr Awdurdod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017. Bydd y farn gyffredinol yn cael ei defnyddio wrth baratoi'r datganiad llywodraethu blynyddol.

7.3 **PENDERFYNWYD derbyn datganiad sicrwydd blynyddol archwilio mewnol, a'i ddefnyddio i gyfrannu at dystiolaeth datganiad llywodraethu blynyddol 2016/17.**

8 CRYNODEB O'R GWAITH ARCHWILIO MEWNOL YN 2016/17 A'R CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT AR GYFER 2017/18

8.1 Cyflwynodd Keith Williams yr adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb i'r aelodau o'r gwaith archwilio a wnaed yn 2016/17 ac yn gofyn am gymeradwyaeth i'r asesiad anghenion archwilio mewnol ac i gynllun archwilio mewnol drafft 2017/18.

8.2 Aeth Mr Williams â'r Aelodau drwy'r adroddiad, gan esbonio'r gwaith a wnaed yn ystod 2016/17. Esboniodd Mr Williams mai 45 diwrnod yn unig a oedd wedi cael eu defnyddio yn 2016/17 felly mae pum niwrnod wedi cael eu cario drosodd i 2017/18.

8.3 Roedd yr archwiliadau a gynhaliwyd yn 2016/17 yn cynnwys adolygiad o gywirdeb a chyflawnder data pensiynau diffoddwyr tân, rheoli presenoldeb a diogeledd seiber. Roedd yr aelodau'n awyddus i sicrhau bod canlyniadau'r archwiliad diogeledd seiber yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio cyn gynted ag y maent ar gael; esboniodd y DBST mai dyma'r prif risg yn y gofrestr risgiau, ac nid yw'r Gwasanaeth yn bod yn hunanfodlon wrth ei reoli.

8.4 Mae'r gwaith archwilio sydd yn yr arfaeth ar gyfer 2017/18 yn cynnwys adolygu'r system credydwyr, y gweithdrefnau ariannol a stocrestrau ar orsafoedd tân y system RDS, a diogeledd seiber (rhan II).

8.5 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi crynodeb y gwaith archwilio mewnol yn 2016/17; a**

**(ii) cymeradwyo'r asesiad anghenion a'r cynllun archwilio mewnol drafft ar gyfer 2017/18.**

9 UNRHYW FATER ARALL

9.1 **Bwrdd Pensiwn Lleol –** Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa fod angen aelod arall i sefyll ar y Bwrdd Pensiwn Lleol gyda'r Cyng. J R Skelland a'r Cyng. J B Hughes. **Cafodd y Cyng. B Apsley ei enwebu, a derbyniodd ef y swydd.**

9.2 **Gweithgor y Cynllun Gwella** – Nodwyd bod y Gweithgor yn cynnwys aelodau'r Panel Gweithredol a'i fod yn cwrdd yn breifat er mwyn trafod amcanion ar gyfer y dyfodol, ynghyd â'r gyllideb. Yn y dyfodol, bydd y Pwyllgor Archwilio yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am y gwaith a wneir gan y Gweithgor.